

Cwestiynau a ofynnir yn aml

Beth yw system Chwilio am Geisiadau Cynllunio?

System sydd wedi cael ei chreu gan Northgate IS Ltd yw'r system chwilio am geisiadau cynllunio. Gallwch ei defnyddio ar ein gwefan i chwilio, gweld a gwneud sylwadau ar y ceisiadau cynllunio rydym yn eu derbyn.

Pa mor aml mae'r wybodaeth yn cael ei diweddarau?

Mae'r wybodaeth yn fyw, hynny yw, mae wedi ei chysylltu'n uniongyrchol â'n system fewnol ac felly mae'n darparu gwybodaeth amser real.

Ers pryd mae hanes ceisiadau cynllunio yn cael eu cadw?

Mae'r system yn cadw gwybodaeth am geisiadau cynllunio ers Hydref 1998. I gael gwybodaeth am geisiadau cynllunio cyn y dyddiad hwn, cysylltwch â ni.

Os wyf yn meddwl fod unrhyw wybodaeth yn anghywir, beth ddylwn i ei wneud?

Os ydych chi'n meddwl fod yr wybodaeth yn anghywir, cysylltwch â ni yn syth gydag e-bost gwasanaethau.rheoleiddio@conwy.gov.uk. Byddwn yn gwneud ymchwil i'r mater a chywiro unrhyw wybodaeth sy'n anghywir.

A yw'n bosibl i mi ddefnyddio'r System Chwilio ar gyfer pridiannau tir?

Nac ydy, peidiwch â dibynnu ar y system chwilio ar gyfer pridiannau tir. Nid yw'n gronfa ddata gyflawn o'r holl wybodaeth y mae'r Cyngor yn ei gadw ac nid yw'n rhan o'n system ffurfiol ar gyfer gadael i bobl wybod am benderfyniadau ynglŷn â cheisiadau cynllunio.

Dylech barhau i ddefnyddio chwiliadau traddodiadol ar gyfer pridiannau tir. Cysylltwch ag adain Pridiannau Tir Lleol y Cyngor am fwy o wybodaeth trwy yrru e-bost at pridiannautirleol@conwy.gov.uk

What sort of documents can I view?

Mae dogfennau yn ymwneud â Cheisiadau Cynllunio sydd wedi'u derbyn ers 15 Gorffennaf 2013 ar gael ar-lein. Mae hyn yn cynnwys ffurflenni cais, yr holl gynlluniau, gwybodaeth gefnogol, adroddiadau, rhybudd penderfyniad, ymatebion ymgynghoriadau statudol a thrydydd parti.

Bydd dogfennau yn ymwneud â Cheisiadau Cynllunio rhwng Hydref 1998 a 15 Gorffennaf 2013 ar gael ar-lein mewn amser, wrth i'r gwaith sganio gael ei gwblhau. Edrychwch am y dogfennau hyn ar-lein ac os nad oes modd eu gweld yna cysylltwch â ni drwy anfon e-bost at gwasanaethau.rheoleiddio@conwy.gov.uk fel y gallwn drefnu i chi gael gweld y dogfennau.

Pa borydd gwe a pha gydraniad sydd orau gyda System Chwilio am Geisiadau Cynllunio?

System chwilio rhyngwyd Microsoft, fersiwn 5.5 neu uwch yw'r gorau gyda'r system Chwilio am Geisiadau Cynllunio. Rydym yn argymhell cydraniad sgrîn 1024 x 768, er, bydd y system yn gweithio gyda chydraniadau is.

Gwybodaeth gyffredinol, hawlfraint ac ymwadiadau

Er bod y Cyngor yn cymryd gofal i sicrhau fod yr wybodaeth a ddarperir ar y safle hwn yn gywir, ni all y Cyngor dderbyn unrhyw gyfrifoldeb na bod yn atebol petaech yn dibynnu ar yr wybodaeth a ddarperir a darganfod yn y pendraw ei fod yn anghywir.

Mae cynlluniau, lluniadau a deunyddiau sy'n cael eu cyflwyno i'r Cyngor yn cael eu diogelu gan y Ddeddf Hawlfraint (adran 47, 1988).

At eich defnydd eich hun yn unig y dylech chi ddefnyddio'r system chwilio am geisiadau cynllunio, neu fel rhan o'r broses ymgynghori ynglŷn â cheisiadau cynllunio.

Os ydych chi eisiau gwneud copïau am unrhyw reswm arall, gofynnwch i ni yn gyntaf.

Sut i gysylltu â ni

Ffôn: 01492 575250 / 575390 / 575121 / 575471

Ffacs: 01492 512637

E-bost: gwasanaethau.rheoleiddio@conwy.gov.uk

Gwefan: <http://www.conwy.gov.uk/poryddcynllunio>